## Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Cynulliad
## Assembly Commission Audit & Risk Assurance Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Dyddiad:** 7 Ebrill 2014
**Amser:** 11.00 – 13.00
**Lleoliad:** Ystafell Gynadledda 4B, Tŷ Hywel

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Ebrill 2014

**Yn bresennol:**

Aelodau
Eric Gregory (Cynghorwr Annibynnol a Chadeirydd y Pwyllgor)
Keith Baldwin (Cynghorwr Annibynnol ac Aelod o'r Pwyllgor)
Hugh Widdis (Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor)
Angela Burns (Aelod Cynulliad a Chomisiynydd)

Swyddogion
Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc, a'r Swyddog Cyfrifyddu
Dave Tosh, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad a TGCh dros dro
Steven O'Donoghue, Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad a Chyfarwyddwr Cyllid
Kathryn Hughes, Rheolwr Risg a Chlerc y Pwyllgor
Gareth Watts, Pennaeth Archwilio Mewnol
Nicola Callow, Pennaeth Cyllid
Helen Holt, Swyddfa Archwilio Cymru
Buddug Saer, Dirprwy Glerc y Pwyllgor

### 1.0 Cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

**Eitem 1** – Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a datganiadau o fuddiant.

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol yn y cyfarfod a rhoddodd ddiolch i'r tîm clercio am ddosbarthu pecyn cynhwysfawr o bapurau yn brydlon.

1.2 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

### 2.0 Cofnodion a materion sy'n codi

**Eitem 2** – Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Chwefror 2014, y camau i'w cymryd a'r materion sy'n codi

2.1 Cyn trafod y camau i'w cymryd, rhoddodd Claire a Dave y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am lansio'r feddalwedd cyfieithu

peirianyddol. Roedd y lansiad yn llwyddiant. Mae'r feddalwedd wedi'i threialu'n eang gan gyfieithwyr y Cynulliad ac mae'n cael ei defnyddio ym mhob rhan o'r Cynulliad bob dydd. Ers ei lansio, mae'r system wedi gwella o ran cywirdeb, a chafwyd canmoliaeth gan gynrychiolydd Microsoft i bawb a gymerodd ran am eu gwaith caled a chydwybodol.

2.2 Rhoddodd y swyddogion y wybodaeth ganlynol am gamau nad ydynt wedi'u cymryd:

- *Cynllunio parhâd busnes (cam gweithredu 3.11)* – Dywedodd Steve wrth y Pwyllgor fod cydgysylltwyr parhâd busnes o ddeddfwrfeydd ledled y DU yn cyfarfod yn y Cynulliad dros doriad yr haf, er mwyn mynd i drafodaeth rhyngseneddol ac roedd prawf parhâd Cyfarfod Llawn ffug yn digwydd ar 24 Ebrill.

- *Contract rheoli adeiladau (camau gweithredu 3.14 a 4.4)* – Cadarnhaodd Steve fod Norland (ein contractwr) yn llunio adroddiad o waith a argymhellir, gyda thystiolaeth i ategu ei ganfyddiadau. Yna, bu rhai o swyddogion y Cynulliad sydd â phrofiad o gynnal a chadw adeiladau yn gweithio gyda Norland i ddilysu a blaenoriaethu ei ganfyddiadau.

- *Mapio sicrwydd (cam gweithredu 5.15)* – Cadarnhaodd Kathryn fod y gwaith hwn yn barhaus. Ers mis Chwefror, roedd y grŵp adnoddau wedi'i dreialu a byddai'r gwaith hwnnw'n llywio'r dull gweithredu mewn meysydd eraill. Câi'r fframwaith sicrwydd ei gyflwyno i'r Bwrdd Rheoli erbyn mis Hydref, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ym mis Tachwedd.

- *Goblygiadau polisïau anhygyrch o ran cost (cam gweithredu 10 yn nhabl 2)* – Cadarnhaodd Steve fod 40 o sefyllfaoedd wedi'u profi ym mis Mawrth ac roedd prosiect wedi'i sefydlu er mwyn mynd i'r afael â'r canfyddiadau.

## 3.0 <u>Archwilio Mewnol</u>

### Eitem 3 – Y wybodaeth ddiweddaraf gan y Pennaeth Archwilio Mewnol

3.1 Cadarnhaodd Gareth fod Siarter Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, a oedd yn ei lle ers y llynedd, yn cael ei dilyn. Dros y misoedd nesaf, byddai'n gofyn am adborth gan aelodau unigol ar effeithiolrwydd archwilio mewnol yn y Cynulliad.

3.2 Roedd yn falch o roi gwybod am ddigwyddiad Twyll a Chwythu'r Chwiban a gynhaliwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (27 Mawrth) yr oedd y cydgysylltwyr Cyllid a'i swyddogion wedi mynd iddo. Er mwyn codi proffil yr adran archwilio mewnol ymhellach, roedd wedi bod yn mynd i gyfarfodydd tîm a byddai'n parhau i wneud hynny dros y misoedd nesaf.

3.3 Nododd fod cwmpas yr archwiliad o brosesau recriwtio wedi'i bennu a'i gytuno, ond ni fyddai'r gwaith maes yn dechrau hyd nes mis Mai 2014.

3.4 Roedd TIAA wrthi'n cynnal archwiliad o brosiect yr adran Adnoddau Dynol a'r Gyflogres ac yn edrych yn benodol ar statws y prosiect ar ôl iddo gael ei roi ar waith a'r broses o drosglwyddo data (olrhain data o system a etifeddwyd). Dylai'r adroddiad fod wedi'i gwblhau erbyn y cyfarfod ym mis Mehefin.

**Eitem 4 – Monitro argymhellion archwilio mewnol**

3.5 Cyflwynodd Gareth y papur hwn a chroesawodd sylwadau gan y Pwyllgor. Roedd yr holl argymhellion wedi'u rhoi ar waith, heblaw am yr argymhelliad ynghylch rheolaeth ariannol. Roedd Gareth a'r Pennaeth Cyllid yn teimlo bod digon o reolaethau ar waith bellach, a chytunodd y Pwyllgor i ddileu'r argymhelliad hwn.

3.6 Cytunodd y Pwyllgor y dylai adroddiadau archwilio mewnol nodi canlyniadau a buddiannau'r argymhellion â blaenoriaeth uchel pan fyddant yn cael eu rhoi ar waith, ond heb ormod o fiwrocratiaeth ychwanegol. Cytunodd Gareth i gynnwys y manylion hyn yn ei adroddiad blynyddol.

3.7 Rhoddodd Gareth y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor hefyd am y cyfle i symleiddio prosesau archwilio mewnol a llunio adroddiadau cryno. Roedd y drefn hon eisoes wedi'i thrafod gyda'r Cadeirydd, a byddai'n cael ei hystyried ymhellach dros y misoedd i ddod.

3.8 Holodd aelodau'r Pwyllgor pa mor berthnasol oedd yr argymhellion o 2010-11 nad oeddent wedi'u gweithredu eto. Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r Ysgrifenyddiaeth ymchwilio i ba risgiau a oedd yn berthnasol o hyd a diweddaru'r amserlen weithredu erbyn y cyfarfod ym mis Mehefin.

3.9 Yna aeth Gareth ymlaen i drafod sicrhau ansawdd yn fewnol; yr arfer safonol yw gwneud hynny bob pum mlynedd. Argymhellodd Gareth,

gan mai dim ond ers mis Gorffennaf y bu yn y swydd a chan fod TIAA yn newydd i'r sefydliad hefyd, y dylid cynnal yr adolygiad hwn mewn dwy flynedd.

3.10 Cytunodd y Pwyllgor y dylai Gareth ystyried adolygiad allanol ysgafn o'r swyddogaeth archwilio mewnol yn y cyfnod interim.

**Eitem 5 – Cynllun archwilio amlinellol drafft 2014-15**

3.11 Gofynnodd Gareth i'r Bwrdd drafod a chymeradwyo cynllun archwilio amlinellol drafft 2014-15. Roedd y ddogfen hon wedi'i llunio ar y cyd â'r Bwrdd Rheoli ac roedd yn ystyried y risgiau corfforaethol y tynnwyd sylw atynt. Credai fod ei gynllun yn un trawsbynciol, a oedd yn canolbwyntio'n ddigonol ar feysydd strategol a chorfforaethol. Roedd Gareth wedi trafod ei amserlen waith gyda'r Cadeirydd y tu allan i'r cyfarfod ac awgrymodd y Cadeirydd y dylid anfon hwn i bob aelod o'r Pwyllgor er mwyn iddynt roi sylwadau.

3.12 Gofynnodd aelodau'r Pwyllgor i Gareth ystyried yr archwiliadau ar gyfer y dyfodol ymhell ymlaen llaw, ac awgrymodd Hugh y dylid canolbwyntio'n fwy penodol ar y Gyfarwyddiaeth Fusnes. Roedd yr enghreifftiau presennol yn hyn o beth yn cynnwys y feddalwedd ddeddfwriaethol a phenodi cynghorwyr allanol.

3.13 Rhoddodd Dave wybod i'r Pwyllgor ei fod yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Dadansoddwyr Busnes a'i fod yn ymwybodol o'u gwaith parhaus gyda'r Gyfarwyddiaeth Fusnes. Ers ei benodi'n Gyfarwyddwr Busnes y Cynulliad dros dro, roedd wedi cytuno i gydweithio â Gareth er mwyn pennu amserlen ar gyfer gwaith archwilio yn y dyfodol.

**Eitem 6 - Yr adroddiadau archwilio mewnol diweddaraf - Gwella'n gorfforaethol**

3.14 Trafododd y Pwyllgor y paratoadau ar gyfer y Pumed Cynulliad a'r risgiau, yng nghyswllt yr etholiad, y dylid eu nodi.

3.15 Cadarnhaodd Claire fod y Bwrdd Rheoli wedi dechrau gweithio ar y Pumed Cynulliad ac y byddai'n ystyried yr adroddiad ar y gwersi a ddysgwyd o'r Pedwerydd Cynulliad mewn cyfarfod yn y dyfodol. Roedd y Tîm Trawsnewid Strategol wedi dechrau gwaith mapio ar gyfer y Pumed Cynulliad hefyd. Cytunodd Dave a Claire i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor.

3.16 Gofynnodd Claire i'r adran ar reoli prosiectau gael ei hehangu i gynnwys: rheoli prosiectau, rhaglenni a phortffolios; sicrhau buddiannau; a chau prosiectau.

**Camau gweithredu**

- Kathryn i ddosbarthu'r blaenoriaethau strategol wedi'u diweddaru i holl aelodau'r Pwyllgor unwaith y byddant wedi'u cwblhau.

**Eitem 7 – Dadansoddi data**

3.17 Roedd yr archwiliad hwn yn canolbwyntio ar y cyfrifon sy'n daladwy ac roedd Gareth wedi'i galonogi y byddai hwn yn faes cryf ym maes Gwasanaethau Ariannol. Mae'r nifer fach o gyflenwyr dwbl wedi'i dileu.

**Eitem 8 – Adolygiad Parodrwydd Busnes TGCh – gweler eitem 15.**

**Eitem 9 – Gwaith Dilynol yr Archwiliad Mewnol –** Nododd y Pwyllgor gynllun dilynol yr Archwiliad Mewnol, a gyflwynwyd gan Gareth.

3.18 Diolchodd y Cadeirydd i Gareth am y wybodaeth gynhwysfawr.

**Eitem 10 – Protocol gweithio ar y cyd**

3.19 Croesawodd y Cadeirydd Helen Holt i'r cyfarfod, a oedd yno ar ran Mark Jones a Richard Harries, a holodd a hoffai Helen a Gareth dynnu sylw at unrhyw fanylion penodol.

3.20 Rhoddodd Gareth a Helen wybod i'r Pwyllgor fod y protocol hwn yn gwneud y berthynas bresennol rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a Chomisiwn y Cynulliad yn un ffurfiol, ac roedd hynny'n arfer da ym marn Trysorlys Ei Mawrhydi. Rhoddodd Helen sicrwydd i'r aelodau fod yr hyn a nodwyd yn y protocol eisoes ar waith, a bod y ddogfen yn nodi cyfrifoldebau'r ddau ochr.

**Camau gweithredu**

- Gareth i nodi effaith argymhellion pwysig yr Archwiliad Mewnol a roddwyd ar waith yn yr adroddiad blynyddol yr adran archwilio mewnol.
- Gareth i anfon holiadur Sicrhau Ansawdd a Chynllun Gwella yr adran archwilio mewnol i aelodau o Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Cynulliad ac ystyried y posibilrwydd o gynnal adolygiad allanol ysgafn o'r swyddogaeth archwilio mewnol.

- Gareth i ddiweddaru a dosbarthu Cynllun Archwilio Mewnol 2014-15 i'r Pwyllgor i'w gytuno'n derfynol, ynghyd â phroffil gwaith manwl 2014-15 ar gyfer archwilio mewnol.
- Dave i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y rhaglen newid strategol er mwyn paratoi ar gyfer y Pumed Cynulliad.

## 4.0 Archwilio Allanol

**Eitem 11 – Y wybodaeth ddiweddaraf gan Swyddfa Archwilio Cymru (gan gynnwys y tâl archwilio)**

4.1 Eglurodd Helen Holt nad oedd y tâl archwilio ar gael eto yn sgil gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru). Cadarnhaodd ei fod yn mynd drwy broses gymedroli fewnol ar hyn o bryd ac y byddai ar gael yn fuan.

## 5 Cyllid

**Eitem 12 – Y wybodaeth ddiweddaraf am y gyllideb**

5.1 Cyflwynodd Nicola y wybodaeth ddiweddaraf am gyllideb 2013-14. Rhoddodd y Pwyllgor ganmoliaeth i Nicola a'r Comisiwn ynghylch y ffigurau alldro.

5.2 Cadarnhaodd Nicola fod y llythyr ynghylch dyraniad 2014-15 wedi'i anfon. Trafodwyd strategaeth cyllideb 2015-16 yng nghyfarfod y Comisiwn yr wythnos flaenorol a byddai ei thîm yn cysylltu â thimau ym mhob rhan o'r sefydliad i drafod hyn ymhellach.

5.3 Cytunodd y Pwyllgor y dylai Nicola gadarnhau ymhle yr oedd yr arbedion gwerth am arian yn cael eu sicrhau.

5.4 Pwysleisiodd Claire pa mor bwysig oedd arbedion staff, gan fod y rhan fwyaf o'r gyllideb yn cael ei gwario ar gostau staff, ac roedd hyn yn dangos bod gwasanaethau wedi parhau i gyflawni am lai o gost.

## 6 Llywodraethu Comisiwn y Cynulliad

**Eitem 13 – Drafft cyntaf y Datganiad Llywodraethu 2013-14**

6.1 Cadarnhaodd Claire fod gwaith yn mynd rhagddo ar y Datganiad Llywodraethu. Gofynnwyd i aelodau'r Pwyllgor anfon eu hawgrymiadau ar gyfer newidiadau at Virginia Hawkins drwy e-bost.

6.2 Nododd y Cadeirydd y dylai'r Datganiad Llywodraethu, adroddiad blynyddol Comisiwn y Cynulliad ac adroddiad blynyddol Pwyllgor

Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Cynulliad fod yn gyson. Awgrymodd y dylid cynnwys crynodeb o berfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol, yn ogystal â datganiad ar adrodd ynghylch rheoli risg.

**Camau gweithredu**

- Y Datganiad Llywodraethu i gynnwys sylwadau aelodau'r Pwyllgor ar y canlynol: cynnydd yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol; diwydrwydd dyladwy o ran ein proffil risg corfforaethol; safbwyntiau'r Pwyllgor ar gryfder llywodraethu a rheoli risg.
- Aelodau'r Pwyllgor i anfon eu gwelliannau arfaethedig at Virginia Hawkins.

**Eitem 14 – Adroddiad risgiau corfforaethol**

6.3 Trafododd y Pwyllgor y Gofrestr Risgiau Corfforaethol gan nodi'r canlynol:

- y camau lliniarol ar gyfer y risg ynghylch adnoddau yn y dyfodol o ran sicrhau bod digon o gyllid i reoli'r risg ar lefel y gwasanaeth; a
- gwaith parhaus y bwrdd prosiect i reoli risg mewn perthynas ag ymgysylltu â phobl ifanc.

6.4 Rhoddodd Steve y wybodaeth ddiweddaraf am y risgiau ynghylch capasiti corfforaethol. Roedd y Bwrdd Buddsoddi wedi cytuno y dylai fod yn gwneud penderfyniadau ynghylch staffio yn unol â phenderfyniadau ar ddyranu adnoddau ar gyfer rhaglenni a phrosiectau. Byddai pennaeth newydd yr adran Adnoddau Dynol yn cyflwyno papur wedi'i ddiweddaru gyda chynllun gweithredu ar sut y mae'n bwriadu rhoi hyn ar waith. Cytunodd y Pwyllgor fod hwn yn welliant cadarnhaol i helpu i ddyrannu'r adnoddau cywir a monitro gwariant.

6.5 Rhoddodd Claire wybod i'r Pwyllgor y byddai angen ystyried yn ofalus benderfyniadau gwerth am arian o ran ble i fuddsoddi llai, yn enwedig ar adegau o newid cyfansoddiadol.

6.6 Cytunodd aelodau'r Pwyllgor i drafod yn fanwl risgiau'r Bwrdd Taliadau yn y cyfarfod ym mis Mehefin.

**Eitem 15 – Archwilio risgiau corfforaethol**

6.7 Cyflwynodd Dave yr eitem ar risgiau prosiect gwasanaethau TGCh y dyfodol. Aeth y cam craidd yn fyw yn llwyddiannus ar 7 Ebrill. Cadarnhaodd y byddai'r prosiect 100% wedi'i gwblhau erbyn 31 Gorffennaf pan fyddai ymrwymiadau cytundebol â Llywodraeth Cymru yn dod i ben yn ffurfiol.

6.8 Llongyfarchodd y Pwyllgor Dave a'i dîm ar eu gwaith trwyadl wrth gyflawni'r rhaglen ar amser ac o fewn i'r gyllideb.

6.9 Tynnodd Dave sylw at bum maes allweddol a oedd yn ganolog i lwyddiant y rhaglen hon a'r gwaith o reoli risgiau mewn ffordd reoledig:

i. Llywodraethu da drwy gydol oes y prosiect gan fwrdd y prosiect, y Bwrdd Rheoli, Comisiwn y Cynulliad a Phwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Cynulliad.

ii. Sicrwydd gan yr archwilwyr allanol KPMG. Roedd gan yr holl archwilwyr brofiad o waith trosglwyddo a chafwyd cyngor gwerthfawr iawn ganddynt.

iii. Y gwaith cynllunio cynnar a wnaed ar gyfer y prosiect hwn.

iv. Tîm ardderchog. Rhoddodd Dave ganmoliaeth i'w reolwyr am fynd i'r afael â'r gwaith heriol hwn.

v. Y ffaith i'r tîm ganolbwyntio ar gyflawni ac amcanion allweddol y rhaglen.

6.10 Holodd aelodau'r Pwyllgor gwestiynau o ran sicrhau y gallai'r Gweinidogion ddefnyddio rhwydwaith Llywodraeth Cymru yn ddiogel, a'r posibilrwydd o golli data hanesyddol am alwadau i'r ddesg wasanaeth. Rhoddodd Dave sicrwydd i'r Pwyllgor fod dull wedi'i gytuno fel y gallai'r Gweinidogion barhau i ddefnyddio'r rhwydwaith ac nad oedd colli hen ddata am alwadau i'r ddesg wasanaeth yn broblem, gan nad oedd cronfa ddata wybodaeth wedi'i chadw ar gyfer y galwadau hyn yn y gorffennol.

6.11 O safbwynt Aelodau'r Cynulliad, awgrymodd Angela fod y dull o gyfathrebu ag Aelodau wedi newid, ond diolchodd i Dave am ei ymdrechion i gynnwys y sefydliad cyfan.

6.12 Nododd Dave y byddai'r rhaglen hon yn llywio dull gweithredu'r Comisiwn wrth reoli rhaglenni / prosiectau.

**Camau gweithredu**

- Dave i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am weithredu dull y Cynulliad o reoli prosiectau a rhaglenni.

**7.0 Eitemau eraill**

**Eitem 16 – Adroddiad blynyddol Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Cynulliad**

7.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor yr adroddiad blynyddol drafft, yn amodol ar ychwanegu rhywfaint of fanylion gan y Pennaeth Archwilio Mewnol ac ynghylch difrifoldeb risg.

**Eitem 17 – Cwestiynau'r holiadur effeithiolrwydd (i'w cymeradwyo)**

7.2 Cymeradwyodd y pwyllgor yr holiadur a ddatblygwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a swyddogion, ac a fireiniwyd gan aelodau'r Pwyllgor. Byddai Swyddfa Archwilio Cymru yn anfon yr holiadur at gyfranogwyr, a châi'r canlyniadau eu hadolygu yn y cyfarfod ym mis Mehefin.

**Eitem 18 – Crynodeb o'r ymadawiadau**

7.3 Nodwyd tri achos o ymadael â'r gweithdrefnau caffael arferol.

**Eitem 19 – Blaenraglen waith Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Cynulliad**

7.4 Nododd y Pwyllgor y rhaglen a chytunodd y câi strategaeth ddiwygiedig y Comisiwn, y trefniadau llywodraethu yng nghyswllt y Rhaglen Buddsoddi a dangosyddion perfformiad allweddol eu hychwanegu fel y bo'n briodol.

**8.0 Diwedd y cyfarfod**

8.1 Rhoddodd Claire wybod i'r Pwyllgor fod Steve O'Donoghue yn gadael y Comisiwn ddiwedd mis Ebrill i ymuno â Swyddfa Archwilio Cymru. Diolchodd y Pwyllgor iddo am ei ymrwymiad a'i gyfraniad at Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Cynulliad, a dymunwyd pob llwyddiant iddo.

8.2 Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben drwy ddiolch i bawb am eu papurau, eu cyfraniadau a'u cwestiynau.

**9.0 Sesiwn breifat**

9.1 Roedd Claire a Dave yn bresennol mewn sesiwn breifat gydag aelodau'r Pwyllgor. Ni wnaed cofnodion o'r rhan hon o'r cyfarfod.

Bwriedir cynnal y cyfarfod nesaf am 11.00 ar 9 Mehefin 2014.